‘Penderfyniadau Anodd 2019-20’

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 3,350 o ymatebion i’r ymgynghoriad.

- 3,325 Ymatebion i’r Arolwg (ar-lein ac ar bapur) * sydd wedi cynhyrchu 6,754 sylwadau
- Cafwyd 7 o gyfranogwyr yn y digwyddiadau ‘stondinau marchnad’
- Derbyniwyd 18 llythyrau / e-byst

Copïau o lythyrau, e-byst a’r holl sylwadau a dderbyniwyd i’w gweld yn llyfrgell yr Aelodau.

*Mae hyn yn darparu Lefel Hyder o fwy na 95% a Chyfwng Hyder dan 5%.

Lefel hyder *yw mynegiant o ba mor hyderus y gall ymchwilydd fod o ran y data a dderbyniwyd gan sampl. Mae lefelau hyder yn cael eu mynegi fel canran ac yn dangos pa mor aml y byddai canran o'r boblogaeth yn rhoi ateb a fyddai o fewn y cyfwng hyder.*

Cyfwng hyder *yw'r ffin o wallau y byddai'r ymchwilydd yn ei brofi pe gallai ef neu hi ofyn cwestiwn ymchwil penodol, er enghraifft i bob aelod o'r boblogaeth darged, a derbyn yr un ymateb a nodwyd gan aelodau'r sampl a nodwyd yn yr arolwg.*

Dadansoddi Arolwg

Data Ansoddol

Am bob un o'r cwestiynau o fewn yr arolwg a gyflwynwyd gydag ymateb 'blwch ticio', roedd nifer o bobl wnaeth ddewis peidio ag ymateb. Felly nid ydym yn gallu penderfynu pam fod pobl yn dewis peidio ag ymateb, ac felly dylem fod yn wyliadwrus wrth wneud unrhyw ragdybiaethau. Fodd bynnag, er mwyn cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad yn ofalus, bydd y graffiau yn nodi canran y bobl sydd yn dewis peidio ag ateb cwestiwn penodol.

Amdanoch Chi

Atebodd 1,862 o bobl y cwestiynau yn yr adran 'Amdanoch chi' o'r arolwg. Felly mae dadansoddiad y data fesul grŵp yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Data Ansoddol

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr arolwg wedi eu dadansoddi a'u trefnu fesul cod/thema.

Ar gyfer pob cynnig, mae cyfanswm nifer y sylwadau a dderbyniwyd wedi ei nodi. Yna mae'r codau / themâu mwyaf cyffredin wedi eu hamlygu yn y ddogfen hon - ynghyd â nifer y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r codau/themâu penodol.

Adennill Incwm a Chostau

Mae gan CBSW 'Bolisi Adennill Costau' sydd yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer codi tâl am wasanaethau wedi'u darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW). Mae'n sefydlu fframwaith lle cytunir ac adolygir y ffioedd a chostau wedi'u gosod gan y cyngor yn rheolaidd a hefyd yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y bydd y cyngor yn eu gweithredu. Mae'r polisi yn cynnwys canllawiau i sicrhau fod ffioedd wedi'u gosod yn briodol fel ein bod yn gallu adennill ein costau ond hefyd yn darparu gwerth i'r cyhoedd am gost sydd yn rhesymol am y gwasanaeth.

Un o brif egwyddorion y polisi yw lle mae'n briodol i godi tâl am wasanaeth, dylem sicrhau ein bod yn gwneud digon o arian o godi tâl i wneud yn iawn am y costau o ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae hefyd yn nodi mewn rhai achosion, lle nad yw'n bosib i ni adennill ein costau y dylem ystyried digomisiynu (h.y. rhoi'r gorau) i'r gwasanaeth.

Mae rhai gwasanaethau yr ydym yn eu darparu am ddim ar hyn o bryd, neu yn gyfnewid am 'gyfraniad bychan'. Byddwn yn ystyried a allem godi tal (neu gynyddu'r tâl) ar gyfer rhai o'r gwasanaethau hyn, fel bod yr incwm yr ydym yn ei gynhyrchu yn ddigon i dalu am gostau darparu'r gwasanaeth.

Byddwn hefyd yn ystyried a oes unrhyw wasanaethau eraill (yr ydym yn eu darparu ar hyn o bryd, neu y byddai modd i ni eu darparu yn y dyfodol) y gallem ystyried codi tâl ar eu cyfer er mwyn cynhyrchu incwm y gellid ei ail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r Cyngor. Gall y dull gweithredu hwn olygu bod modd i ni barhau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol (y byddai'n rhaid inni roi'r gorau i'w darparu'n gyfan gwbl fel arall) drwy godi tâl amdanynt.

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd eraill lle gall CBSW ennill incwm?

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd eraill lle gall CBSW ennill incwm?	
Cod / Thema	**Nifer**
Lleihau cyflogau Cynghorwyr / Peidio â chynyddu cyflogau / Gwneud y rôl yn wirfoddol	123
Cael gwared ar rôl y Maer	111
Codi tâl ar staff a Chynghorwyr i barcio	109
Lleihau nifer y Cynghorwyr	67
Lleihau cyfraddau rhent a busnes i fusnesau yn Wrecsam	61
Sylwadau negyddol ynglŷn â phalmant newydd ar Stryt yr Hôb	55
Lleihau cyflogau staff y Cyngor	50
Gwell gorfodaeth ar gyfer sbwriel, baw cŵn, parcio ac ati.	45
Cynyddu Treth y Cyngor	39
Syniadau eraill ar gyfer creu incwm	35

Gwasanaethau Gwastraff

Byddwch yn ymwybodol o ymgynghoriadau cyllideb flaenorol ein bod wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn delio â gwastraff yn Wrecsam am nifer o flynyddoedd, fel y mae Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar y mater hwn gan eu bod eisiau sicrhau fod gwasanaethau lleol yn cefnogi mentrau a thargedau cenedlaethol. Canllawiau Llywodraeth Cymru yw bod awdurdodau lleol yn edrych ar symud i gasgliadau gwastraff tŷ yn fisol (h.y. eich bin du neu fin glas), er mwyn cynyddu'r cyfanswm o wastraff y byddwn yn ei ailgylchu, diogelu'r amgylchedd a lleihau costau. Hyd yma yng Nghymru nid ydym wedi gweld unrhyw ardaloedd yn cyflawni'r safon hon. Fodd bynnag, rydym wedi gweld nifer o ardaloedd (fel Gwynedd) yn newid fel bod casgliadau bin gwastraff tŷ yn digwydd unwaith bob tair wythnos (yn lle unwaith bob pythefnos fel y gwneir yn Wrecsam ar hyn o bryd).


Wrth i ni weld y cynnydd a'r newidiadau y mae eraill yn ei wneud i wasanaethau gwastraff yn amlwg yn Wrecsam rydym hefyd angen ystyried gwneud y newidiadau hyn. Mae nifer o opsiynau i ni eu hystyried, a hoffem wybod eich barn chi amdanyn nhw.

Un opsiwn fyddai i ni gyflwyno casgliadau bin unwaith bob tair wythnos ar gyfer eich biniau du/glas. Byddwn yn parhau i gasglu eich gwastraff i'w ailgylchu yn wythnosol, gan y gobaith yw bod cynnydd yn y cyfanswm o wastraff yn cael ei ailgylchu o ganlyniad i'r newid hwn mewn 'gwastraff gweddilliol'. Byddai hyn yn golygu y byddem yn cyd-fynd â Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Casglu Cymru, ac Awdurdodau Lleol eraill sydd wedi neu'n golygu symud i'r system yma. Rydym yn amcangyfrif mai dyma fyddai'n cynhyrchu'r lefel uchaf o arbedion, a hefyd yn cael yr effaith mwyaf ar ailgylchu yn Wrecsam.

Yr ail opsiwn yr ydym yn ei gynnig yw'r ffordd rydym yn delio â gwastraff gwyrdd / gardd. Yn seiliedig ar rai awgrymiadau a wnaed gennych yn ymgynghoriad cyllideb llynedd, a'r data sydd gennym am gyfanswm y gwastraff gardd yr ydym yn ei gasglu, eleni byddwn ond yn casglu eich gwastraff gardd unwaith y mis yn Nhachwedd, Rhagfyr ac Ionawr. Yn annhebyg i wastraff tŷ nid yw'n gyfraith ar y cyngor i orfod casglu gwastraff gardd; fodd bynnag rydym eisiau gallu cynnig y gwasanaeth hwn ac felly'r cynnig yw codi tâl ar bawb (sydd yn defnyddio'r gwasanaeth) o £30 y flwyddyn i gael gwagio eu bin gwyrdd (yn ogystal â £30 am unrhyw fin gwyrdd ychwanegol). Mae ardaloedd eraill eisoes yn codi ffi flynyddol am finiau gwyrdd fel Sir Y Fflint (sydd yn codi £30) a Sir Gaerfyrddin (sy'n codi £42), a ddim yn casglu yn ystod misoedd y gaeaf.

2. Yn anffodus, oherwydd y toriadau sy'n rhaid i ni eu gwneud i'n cyllideb nid oes gennym yr opsiwn o wneud dim; felly rhowch wybod i ni am eich safbwyntiau ar yr opsiynau yr ydym wedi'u hamlinellu.

Beth fyddai eich dewis a ffafrir?



Gwnewch unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill am y gwasanaethau gwastraff isod:	
Cod / Thema	**Nifer**
Mae risg o gynnydd mewn tipio anghyfreithlon os cyflwynir y cynigion hyn	302
Byddai lleihau casgliadau gwastraff tŷ yn achosi mwy o broblemau h.y. fermin, arogleuon a llanast	234
Mae pobl yn ei chael yn anodd gyda chasgliadau bin bob pythefnos – yn enwedig pobl gyda phlant ac anifeiliaid anwes	188
Lleihau casgliadau'r gaeaf ar gyfer gwastraff gwyrdd yn rhesymol, ac o bosib hyd yn oed yn cael ei leihau ymhellach	123
Ni ddylai fod yna newidiadau mewn gwasanaethau gwastraff pan rydym yn talu gymaint o dreth y cyngor	120
Mae angen gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan dimau casglu biniau gan gynnwys perfformiad staff, recriwtio a dal gafael ar staff	114
Anghytuno gyda'r ddau opsiwn	107
Dylid addysgu ac annog pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy. Dylai fod mwy yn cael ei wneud i sicrhau fod pobl yn dilyn y rheolau ynghylch ailgylchu.	100
Beirniadu CBSW	94
Cadw casgliadau biniau bob pythefnos	90

Llyfrgelloedd


Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau llyfrgell ‘digonol a boddhaol’; fodd bynnag, dewis yr awdurdod yw penderfynu sut y byddan nhw’n darparu’r gwasanaethau hyn yn eu hardal. Yn Wrecsam, rydym ar hyn o bryd yn gwario oddeutu £1.3 miliwn ar lyfrgelloedd bob blwyddyn, ac felly yn amlwg yn yr amseroedd anodd sydd ohoni dyma agwedd sydd angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn gallu cwrdd ag anghenion preswylwyr sy'n newid yn gyson.

Ein cynnig yw dros y flwyddyn nesaf ein bod yn cwblhau adolygiad o wasanaethau llyfrgell ar draws Wrecsam er mwyn deall eich anghenion a'r ffordd orau i drawsnewid y gwasanaeth hwn i gwrdd â'r anghenion hynny. Ein disgwyliad drwy wneud hyn yw ein bod yn gallu cynnig gwasanaeth mwy modern, ond yn lleihau'r gwariant yn yr ardal a phontio'r bwlch yn ein cyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Fel rhan o’r adolygiad hwn byddwn yn gweithio gyda’n cymunedau lle mae opsiynau ar gyfer newid y gwasanaeth.

Yn syml ni allwn barhau gyda’r gwariant presennol yn y gwasanaeth hwn ac felly os na fyddwn yn cwblhau'r adolygiad graddfa lawn o wasanaethau llyfrgelloedd yna bydd yn rhaid gwneud newidiadau'r un fath. Rydym wedi nodi rhai dewisiadau posibl ar gyfer arbed arian yn 2019/20 (yn cynnwys o bosib newid y ffordd yr ydym yn cyflawni gwasanaethau llyfrgell mewn ardaloedd penodol o’r sir) fodd bynnag mae’n annhebygol y bydd y newidiadau hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y gwasanaeth, neu’n helpu i gyflawni gwasanaeth wedi’i foderneiddio sydd yn cwrdd â galw lleol; ac efallai bod yna dal angen gwneud gostyngiadau pellach yn y gwasanaeth yn y dyfodol.

Yn anffodus, oherwydd y toriadau sy’n rhaid i ni eu gwneud i’n cyllideb nid oes gennym yr opsiwn o wneud dim; felly rhowch wybod i ni am eich safbwyntiau ar yr opsiynau yr ydym wedi’u hamlinellu.

Beth fyddai eich dewis a ffafrir?



Gwnewch unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill am llyfrgelloedd isod	
Cod / Thema	**Nifer**

Mae llyfrgelloedd yn asedau cymunedol a dylid eu cadw - maent yn llefydd cyfarfod i'r gymuned leol a hefyd yn helpu i atal unigrwydd ac yn cael eu defnyddio gan ysgolion	**129**
Ystyried creu incwm – h.y. codi ffi aelodaeth, rhentu gofod, defnyddio cyfrifiadur, sefydlu caffi, chwilio am nawdd	**122**
Mae'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn hanfodol i deuluoedd, pobl hŷn a phobl ar incymau isel (h.y. rheiny sydd methu fforddio cyfrifiaduron / WiFi / llyfrau a chwilio am waith)	**122**
Llyfrgelloedd ddim eu hangen – digidoleiddio gwasanaethau a hyfforddi pobl sut i'w defnyddio nhw / darparu tabledi i'r rheiny sydd eu hangen fwyaf	**75**
Peidiwch â cau mwy o lyfrgelloedd neu leihau'r gwasanaeth	**65**
Trosglwyddo llyfrgelloedd i sefydliadau preifat / trydydd sector / Cynghorau Cymuned a chwilio am fwy o wirfoddolwyr i helpu eu rhedeg	**58**
Cyd-leoli i adeiladau eraill sy'n eiddo'r cyngor, adeiladau cymunedol, ysgolion neu Tŷ Pawb	**57**
Cael ond un llyfrgell yng nghanol tref (cau'r gweddill)	**50**
Mae angen adolygiad i wneud y defnydd gorau o adnoddau / cwrdd ag anghenion cwsmeriaid / moderneiddio'r gwasanaeth – sicrhau fod staff yn cymryd rhan	**49**
Defnyddio adeiladau llyfrgell ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd (gwneud mwy o ddefnydd o ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau)	**46**

Cludiant i 'ysgolion ffydd'

Mae gennym sawl 'ysgol ffydd' yn Wrecsam (h.y. yr ysgolion hynny sydd wedi eu bwriadu ar gyfer disgyblion o ffydd grefyddol benodol). Gall rhieni ddewis gwneud cais i'w plant fynd i'r ysgolion hyn.


Y trefniadau ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn Wrecsam yw ein bod yn cynnig cludiant i unrhyw blentyn sy'n byw fwy na 3 milltir (ar gyfer ysgolion uwchradd), neu fwy na 2 filltir (ar gyfer ysgolion cynradd) i ffwrdd o'r ysgol y maent yn ei mynychu, cyhyd ac mai hon yw'r ysgol addas agosaf at y man lle maent yn byw. Nid ydym yn cynnig cludiant am ddim i'r ysgol i'r disgyblion hynny lle mae'r rhieni yn ffafrio peidio â'u hanfon i'r 'ysgol addas agosaf'. Os bydd rhiant yn penderfynu eu bod yn dymuno i'w plentyn fynychu ysgol ffydd mae cludiant i'r ysgol am ddim i ddisgyblion sy'n byw ymhellach na 2 neu 3 milltir i ffwrdd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd – heb ystyried a oes ysgol nad yw'n un ffydd yn nes at eu cartref.

Mae darparu cludiant i ysgolion ffydd yn 'ddewisol' (sy'n golygu nad oes rhaid i ni ei ddarparu yn ôl y gyfraith). Rydym yn amcangyfrif mai cost cynnig y cludiant hwn yw oddeutu £302,000 y flwyddyn ar hyn o bryd, ac felly rydym eisiau adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer y ddarpariaeth hon, ac ystyried dod a diwedd ar gludiant am ddim.

Byddai unrhyw newidiadau yn y maes hwn yn effeithio ar gludiant i 17 o ysgolion yn Wrecsam, a byddai'r newid arfaethedig hwn yn effeithio ar 406 o ddisgyblion ar hyn o bryd. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn, byddai hefyd angen i ni gynnal ymgynghoriadau gyda phob ysgol, rhieni a rhanddeiliaid eraill cysylltiedig fel yr awdurdodau esgobaethol; a byddem eisiau sicrhau na fyddai unrhyw effaith negyddol ar addysg disgyblion yn ei sgil. Byddai hefyd angen i ni sicrhau y byddai unrhyw newidiadau a wneir yn sgil yr adolygiad a'r ymgynghoriad hwn yn cael eu gwneud ar amser priodol (e.e. pe bai'n mynd yn ei flaen y cynharaf y gallwn ei weithredu fyddai ar ddechrau blwyddyn ysgol ym Medi 2021).

4. Oherwydd yr her ariannol rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddewis gennym ond ystyried adolygu nifer fawr o'n gwasanaethau.

Dywedwch wrthym a fyddech chi'n cefnogi penderfyniad gennym i gynnal yr arolwg hwn o gludiant i ysgolion ffydd.



Gwnewch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ynghylch cludiant i ‘ysgolion ffydd’ isod os gwelwch yn dda.	
Cod / Thema	**Nifer**
Dylai rhieni dalu’r gost gyfan neu ran ohono	436
Gwahaniaethu at ysgolion ffydd / torri cydraddoldeb a hawliau dynol	145
Pryder am fforddiadwyedd / dylai modd gael ei brofi	100
Dylai’r polisi cludiant presennol gael ei adolygu fel ei fod yn gyfartal i bawb	82
Mae'r system yn tueddu i fod o blaid ysgolion ffydd ar hyn o bryd	77
Annheg a niweidiol i deuluoedd o ffydd	69
Ni ddylai’r Cyngor / trethdalwr fod yn talu am hyn	57
Byddai cael gwared ar gludiant am ddim yn tynnu’r dewis oddi ar rywun	53
Dylai rhieni ddewis yr ysgol agosaf	44
Dylai ysgolion Cymraeg gael eu cynnwys yn y cynnig	32
Dylai’r eglwys dalu	32

Treth y Cyngor

Treth a godir yn lleol yw Treth y Cyngor sy'n daladwy ar bob eiddo domestig. Mae'n cynnwys tair elfen wahanol - Tâl Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Tâl Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Thâl y Cyngor Cymuned. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn casglu'r holl daliadau hyn ac yn cadw'r swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ac yn talu'r symiau a gasglwyd ar ran Awdurdod yr Heddlu a'r Cynghorau Cymuned unigol. Mae'r swm sy'n ddyledus yn dibynnu ar ba 'Fand' y mae'r eiddo wedi ei osod ynddo. Mae ystod o fandiau, o 'A' hyd 'I'. Band 'A' sydd â'r tâl isaf a Band 'I' sydd â'r tâl uchaf. Cynigir gostyngiadau hefyd pan fo person yn byw ar ei ben ei hun neu os yw eiddo'n wag.

Ar gyfer 2019/20 rydym yn ystyried nifer o opsiynau gan gynnwys cynnydd i dreth y cyngor sy'n gyfwerth a 6% mewn eiddo band D, oherwydd pwysau parhaus yn sgil llymder. Rydym yn gwerthfawrogi bod hyn yn fwy na'r blynyddoedd a fu ac yn deall fod cyllidebau yn dynn i bawb, fodd bynnag er mwy helpu i gael digon i dalu am gostau cynyddol ac i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen cymaint â phosib, rydym yn gofyn i chi ystyried cefnogi'r cynnig hwn. Bydd hyn yn help i amddiffyn, cymaint a phosib, y gwasanaethau hynny sydd o flaenoriaeth uchel i chi – fel ysgolion ac i gwrdd â galw cynyddol wedi roi ar ofal cymdeithasol i oedolion a phlant.

Fel Awdurdod Lleol, rydym hefyd wedi cyfrannu at Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac eleni maent wedi gofyn am gyfanswm mwy gennym. Mae cynnydd mewn treth y cyngor yn golygu y gallwn roi arian i'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel y maen nhw wedi'i ofyn amdano (h.y. cynnydd o 0.65% mewn treth y cyngor yn eu helpu nhw gynnal y ddwy injan dân yng Ngorsaf Dân Wrecsam).


Llynedd roedd y cynnydd mewn treth y cyngor ar draws Cymru yn amrywio o 3.3& i 12.5% - yn Wrecsam roedd cynnydd o 3.9% - y trydydd cynnydd isaf ar draws Cymru, ac yn is na chyfartaledd Gogledd Cymru llynedd o 5%. Mae ein treth y cyngor wastad wedi bod yn un o'r isaf yng Nghymru, ac yn genedlaethol o'r 250 Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr mae ein preswylwyr yn talu'r gyfradd treth y cyngor seithfed isaf.

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn gwneud asesiad i faint y mae'n disgwyl y bydd pob Awdurdod Lleol angen ei wario i gyflawni ei wasanaethau (sy'n adnabyddus fel yr Asesiad o Wariant Safonol). Mae yna'n darparu rhan o'r cyllido hwn, a'r gweddill yn dod o greu incwm a threth y cyngor. Er mwyn cwrdd â'r gyllideb mae Llywodraeth Cymru yn nodi ein bod angen, ac yn wirioneddol angen cynyddu ein treth y cyngor o oddeutu 13%. Nid ydym yn cynnig gwneud hynny ac felly ar hyn o bryd yn ceisio pontio'r bwlch cyllido trwy reoli'r gyllideb yn agos a bod mor effeithlon â phosib.

Un opsiwn rydym yn ei ystyried yw cynnydd o 6% a fydd yn costio teulu mewn eiddo Band D oddeutu £5.45 ychwanegol y mis. Er ein bod yn gwerthfawrogi fod cyllidebau pobl yn dynn, rydym eisiau gwneud popeth a allwn i amddiffyn gwasanaethau pwysig fel ysgolion a gofal cymdeithasol, ac mae'r cynnydd mewn treth y cyngor yn ein helpu i wneud hyn.

5. Credwn bod yn rhaid cael cynnydd mewn treth y cyngor er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen hanfodol yr ydych chi fel preswylwyr yn eu hystyried yn bwysig.

Felly gofynnwn i chi ystyried yr opsiynau canlynol, a dewis un.



Gwnewch unrhyw sylwadau pellach am Dreth y Cyngor isod.	
Cod / Thema	**Nifer**
Mae gwasanaethau'r Cyngor yn lleihau/is na'r safon/ddim yn ateb y gofyn/ddim yn werth am arian felly mae'n annheg cynyddu Treth y Cyngor	218
Mae treth y cyngor yn ddigon uchel yn barod ac mae'r cynnydd arfaethedig yn anfforddiadwy	217
Beirniadaeth o'r cwestiwn Treth y Cyngor - yn cynnwys categorïau atebion arweiniol/unochrog, angen mwy o wybodaeth manwl, a chamddeall y byddai'r cynnydd ond yn berthnasol i eiddo band d/band d ac uwch	120
Dylai cynnydd treth y cyngor gael eu cadw yn unol â mesurau/lefelau eraill – h.y. chwyddiant, cost byw, cyflogau/pensiynau	115
Gwneud pethau'n wahanol i arbed mwy o arian – awgrymiadau yn cynnwys gwella effeithlonrwydd, gwasanaethau a rennir/integredig gyda phartneriaid, buddsoddi i arbed, torri gwasanaethau	86
Cefnogi'r cynnydd arfaethedig cyn belled a'i fod yn cael ei wario ar y gwasanaethau a amlinellir (Gofal Cymdeithasol, Addysg, Tân)	80
Dylai Treth y Cyngor gael ei rewi neu ei leihau	71
Blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol a stopio gwastraffu arian ar brosiectau diangen – h.y. Tŷ Pawb, Palmentydd Canol y Dref, Arwyddion Maes Parcio	66
Lleihau'r gost o Gynghorwyr - yn cynnwys niferoedd, cyflogau, costau, manteision	64
Cefnogi cynnydd Treth Y Cyngor – rhai yn dweud ar yr amod mai dim ond i fyny 5%/6%, eraill yn dweud i fyny at 10%	59

Unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer arbed arian neu ffyrdd gwahanol y gallwn ddarparu ein gwasanaethau	
Cod / Thema	**Nifer**
Lleihau'r nifer o Gynghorwyr / tâl Cynghorwyr	225
Cael gwared ar y maer / lleihau'r gyllideb faerol	122
Lleihau lefelau staffio	92
Lleihau tâl uwch swyddogion	90
Lleihau gwariant ar Tŷ Pawb / Tŷ Pawb – beirniadaeth	63
Palmant bloc ddim yn hanfodol / yn wastraff arian	61
Staff ac Aelodau i dalu am barcio	54
Mynd i'r afael â staff sydd ddim yn perfformio	53
Gosod swyddfeydd gwag / lleihau llety swyddfa / gwneud defnydd gwell o'n hasedau / gwerthu adeiladau a thir / gwerthu'r holl asedau sydd ddim eu hangen rhagor / Groves	45
Stopio defnyddio ymgynghorwyr / contractwyr – defnyddio staff yn lle / gwneud mwy yn fewnol – dim contractwyr (h.y. Kingdom)	45